

CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG – CRYNODEB GWEITHREDOL

MEDI 2022 – AWST 2032

TROSOLWG

Mae adran 84 *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'n amlinellu bod yn rhaid i Gynllun gynnwys:

- a. cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cynnal ei swyddogaethau addysg i:
 - i. wella cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg (addysg cyfrwng Cymraeg) yn ei ardal;
 - ii. gwella safonau addysg Gymraeg a safonau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ei ardal;
- b. targedau'r awdurdod lleol o ran gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal a gwella safonau'r addysg honno a safonau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ei ardal;
- c. creu adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fwrw targedau'r Cynllun blaenorol neu'r Cynllun diwygiedig blaenorol.

CYMRAEG 2050

Mae Cymraeg 2050 yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Nod y strategaeth yw cynyddu:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050 a,
- sicrhau bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn unig, yn cynyddu o 10% (yn 2013–15) i 20% erbyn 2050.

Bydd angen i CSGA'r Cyngor ddangos sut y bydd Casnewydd yn cyfrannu at gyflawni'r nod hwn.

RHEOLIADAU A CHANLLAWIAU

Cyhoeddwyd canllawiau i Awdurdodau Lleol ar baratoi CSGA 10 mlynedd newydd yn gynharach eleni, ac mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Rhaid i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno eu cynllun cytunedig i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022;
- Bydd disgwyl i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad ar y cynllun am ddim llai nag 8 wythnos;
- Rhaid i'r targed 10 mlynedd sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg fod o fewn ystod a ragnodir gan Lywodraeth Cymru;
- Rhaid i awdurdodau lleol baratoi eu cynlluniau o amgylch set o saith canlyniad rhagnodedig a bennir gan Lywodraeth Cymru;
- Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno diweddariadau blynyddol ar gynnydd eu cynlluniau i Lywodraeth Cymru.

GWELEDIGAETH 10 MLYNEDD CASNEWYDD

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd yw bod "pawb yng Nghasnewydd yn gallu defnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg fel iaith fyw ym mhob rhan o fywyd ar draws y Ddinas", a ymgorfforir gan yr ymadrodd "**Gweld, Clywed, Dysgu, Defnyddio, Caru**".

Mae Casnewydd yn ddinas Gymreig, gyda hunaniaeth Gymreig ond gydag amrywiaeth eang o gymunedau amlddiwylliannol ac amlieithog, ac mae'n bwysig cynyddu'r ymwybyddiaeth bod y Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhywbeth sy'n ein diffinio fel pobl ac mae'n rhan gynyddol annatod o'n bywydau bob dydd. Dyhead hirdymor y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd, a chodi ymwybyddiaeth, cynyddu gwelededd, a hyrwyddo manteision economaidd y Gymraeg ar draws y cymunedau amrywiol yn y ddinas drwy gynyddu cyfleoedd i'r rhai sydd â phob lefel o Gymraeg ymarfer a siarad Cymraeg mewn ffordd ddiogel, amgylchedd cyfeillgar a chefnogol, ac i ymgysylltu â'r rhai nad oes ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth o'r iaith o bosibl.

Fel yr amlinellwyd, mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyledig yn nifer y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun. Fodd bynnag, rhaid i'r targed 10 mlynedd hwn fod o fewn ystod a ragnodir gan Lywodraeth Cymru. Mae Casnewydd yng ngrŵp 4 ac felly mae angen cynnydd gan 6 phwynt canran o leiaf yn y cyfnod 10 mlynedd. Mae hyn wedi'i fesur isod (mae targed 2032 yn seiliedig ar ein carfan disgyblion presennol):

Blwyddyn CYBLD	Carfan	Canran y garfan	Nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 1
Gwaelodlin 2021	1988	5.1	101
Targed 2032	1988	11.1	221

Ym mis Medi 2020, roedd 112 o leoedd Cymraeg Blwyddyn 1 ar gael ledled Casnewydd. Felly, mae'r ychwanegedd lleiaf posib ar hyn o bryd yn cyfateb i 109 o leoedd disgyblion newydd erbyn 2032.

Darperir 60 o'r lleoedd ychwanegol hyn yn y pen draw drwy Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli sy'n agor ym mis Medi 2021 a bydd yn cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ledled y Ddinas 54%.

Ar hyn o bryd mae'r swyddogion yn ystyried opsiynau i gyflwyno cynnig i greu 30 o leoedd cynradd Cymraeg pellach fesul grŵp blwyddyn o fis Medi 2026 fan bellaf yng Ngorllewin y Ddinas. Rhagwelir y gellid ariannu hyn drwy ail Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r diffyg yn erbyn y targed isaf, a amcangyfrifir fel 30 o leoedd disgyblion Blwyddyn 1 arall, gael ei gynnwys mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch ysgolion newydd a arweinir gan ddatblygwyr a rhaglen Band C Ysgolion yr 21ain Ganrif. Nid yw'r manylion hyn wedi'u meintioli a byddant yn debygol o ddod i'r amlwg yn ail hanner cyfnod y CSCA hwn, o 2027 ymlaen, a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol a fydd ar waith yn cwmpasu'r cyfnod hwn.

O ganlyniad i'r bwriad hwn i ehangu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg erbyn 2032, nod y Cyngor yw cynnig o leiaf 232 o leoedd Blwyddyn 1 ar draws 6 lleoliad ysgol gynradd, gan fwy na dyblu'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Ategir hyn gan fwy o gyfleoedd blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr uchelgais hwn hefyd yn ymestyn i'r sector uwchradd, gan y bydd y cynnydd sylweddol arfaethedig yn y ddarpariaeth gynradd yn anochel yn gofyn am gynnydd tebyg yn y ddarpariaeth uwchradd. Caiff hyn ei ystyried yn ail hanner y cynllun a'i gynnwys o fewn bwriad y Cyngor i adolygu'r holl ddarpariaeth uwchradd ar draws y Ddinas fel rhan o Raglen Band C Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r rhaglen hon yn debygol o ddechrau yn 2024.

MEYSYDD DEILLIANT

Maes Deilliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<p><i>Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</i></p>	<p>Ar hyn o bryd mae 112 o leoedd meithrin rhan-amser ar gael ledled Casnewydd (a fydd yn cynyddu i 160 ym mis Medi 2021).</p> <p>Mae un lleoliad nas cynhelir yn gallu cynnig addysg feithrin, a bydd lleoliad arall hefyd yn gallu cynnig hyn o fis Medi 2021.</p> <p>Mae dau Gylch Meithrin yng Nghasnewydd, a bydd darpariaeth newydd yn agor ym mis Medi 2021. Mae'r data diweddaraf yn dangos cyfradd pontio o 59% o ddarpariaethau meithrin i ysgolion cyfrwng Cymraeg o'i chymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 89.9%.</p> <p>Mae dau grŵp Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg, gyda thair darpariaeth newydd ar y gweill a fydd yn agor yn 2022. Ar hyn o bryd mae 50 o blant yn cael mynediad i leoedd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog drwy'r cynnig gofal plant.</p>	<p>Y targedau 5 mlynedd yn y cynllun hwn yw i nifer a % y plant 3 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu i 210 (8.6% o'r garfan) erbyn blwyddyn academaidd 2026/27.</p>	<p>Y targedau cyffredinol yn y cynllun 10 mlynedd yw i nifer a % y plant 3 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu i 271 (11.1% o'r garfan) erbyn blwyddyn academaidd 2031/32.</p>

Maes Deiliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<i>Deiliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	Cadarnhaodd ffurflen CYBLD Ionawr 2021 fod 113 o ddisgyblion Dosbarht Derbyn (5.7% o'r garfan) yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.	Y targed 5 mlynedd yn y cynllun hwn yw i nifer a % y plant 5 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu i 171 (8.6% o'r garfan) erbyn blwyddyn academaidd 2026/27.	Y targedau cyffredinol yn y cynllun 10 mlynedd yw i nifer a % y plant 5 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu i 220 (11.1% o'r garfan) erbyn blwyddyn academaidd 2031/32.
<i>Deiliant 2 (parhad) - Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>		Cyflawnir hyn yn rhannol drwy agor ac yna adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor hefyd yn ystyried opsiynau i gyflwyno cynnig drwy ail Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru i greu 30 o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg pellach fesul grŵp blwyddyn o fis Medi 2026 fan bellaf.	Er nad oes penderfyniad ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd yr ychwanegiad pellach hwn yn cael ei greu ar ôl 2027, mae'r Cyngor yn ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth erbyn 2031. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch ysgolion newydd a arweinir gan ddatblygwyr, Band C rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Drafft Y...

Maes Deiliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<p>Deiliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall</p>	<p>Mae pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn uchel iawn (rhwng 96% a 99% dros y tair blynedd diwethaf) ac mae perthynas agos wedi'i sefydlu a'i hymgorffori rhwng cymunedau'r ysgol.</p>	<p>O fewn 5 mlynedd cyntaf y cynllun hwn, y targed yw i o leiaf 96% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg barhau i drosglwyddo'n gyson i ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r targed yn briodol oherwydd meintiau bach y carfannau a'r effaith y gallai un disgybl ei chael ar y ganran.</p> <p>Bydd y targed cyffredinol yn y cynllun hwn mewn perthynas â dysgwyr oedran Derbyn yn cael effaith ar ddarpariaeth uwchradd o fewn oes y CSGA.</p>	<p>Targed cyffredinol y cynllun 10 mlynedd, y targed yw i o leiaf 96% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg barhau i drosglwyddo'n gyson i ysgol uwchradd Gymraeg.</p> <p>Erbyn 2032, rhagwelir y bydd angen darpariaeth uwchradd ychwanegol o 600 o ddysgwyr oedran ysgol statudol o leiaf, ynghyd â chapasiti ôl-16 priodol. Mae'n debygol felly y bydd ehangu'r ddarpariaeth uwchradd Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol o fewn Band C Rhaglen Ysgolion yr 2 Iain Ganrif y Cyngor, a fydd yn dechrau tua 2024. Nid yw'r manylion hyn wedi'u meintioli eto.</p>

Drafft Y...

Maes Deiliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<p>Deiliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Cwblhaodd y garfan gyntaf o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed eu cyrsiau TGAU yn ystod haf 2021, ac o fis Medi 2021 ymlaen, bydd addysg cyfrwng Cymraeg Ôl-16 yn cael ei chyflwyno yng Nghasnewydd am y tro cyntaf erioed.</p> <p>Cynigir TGAU Cymraeg (2^{il} iaith) ym mhob un o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg Casnewydd ar draws y Ddinas, er bod gostyngiad sylweddol fodd bynnag yn y cam Ôl-16.</p> <p>Mae Coleg Gwent yn cofnodi iaith dysgu ac asesu pob dysgwr, ac er bod y niferoedd hyn yn gymharol isel, mae'r coleg yn uchelgeisiol o ran ei weledigaeth i gynyddu'r niferoedd hyn dros y 10 mlynedd nesaf.</p>	<p>Dyma'r targedau 5 mlynedd yn y cynllun hwn :</p> <ul style="list-style-type: none"> • 317 o ddysgwyr (100% o'r garfan) yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir, drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlynnyddoedd 10 i 13 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed; • 1952 o ddysgwyr (96.2% o'r garfan) yn astudio ar gyfer cymhwyster a asesir TGAU Cymraeg (2il iaith), a; • 600 o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir, Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Gwent. 	<p>Mae'r targedau cyffredinol ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd hwn fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 342 o ddysgwyr (100% o'r garfan) yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlynnyddoedd 10 i 13 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed; • 1941 o ddysgwyr (96.3% o'r garfan) yn astudio ar gyfer cymhwyster a asesir TGAU Cymraeg (2il iaith), a; <p>1000 o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir, Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Gwent.</p>

Drafft

Maes Deiliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<p>Deiliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol</p>	<p>Mae'r gefnogaeth i'r Siarter Iaith a Champws Cymraeg yn parhau.</p> <p>Mae gweithiwr ieuencid Cymraeg llawn amser yn gweithio yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru sydd hefyd yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac yn eu cymunedau.</p> <p>Mae Menter Iaith Casnewydd yn gweithredu Clybiau ar ôl Ysgol mewn dwy ysgol gynradd.</p> <p>Mae Coleg Gwent yn sicrhau y darperir cyfleoedd cyfoethogi'r Gymraeg i bob dysgwr.</p>	<p>Y targed 5 mlynedd yw bod o leiaf 30 o ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael Achrediad Lefel Aur Campws Cymraeg.</p> <p>Nod Menter Iaith Casnewydd yw sicrhau bod Clybiau ar ôl Ysgol ar gael ym mhob un o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o fewn 5 mlynedd.</p> <p>Disgwyliad Coleg Gwent yw bod lefelau cyfranogiad dysgwyr ar gyfer gweithgareddau Cymraeg yn cynyddu i 70% dros y 5 mlynedd nesaf.</p>	<p>Y targed cyffredinol o fewn y cynllun 10 mlynedd yw i o leiaf 40 o ysgolion cyfrwng Saesneg ennill Achrediad Lefel Aur Campws Cymraeg.</p> <p>Amcan Coleg Gwent yw parhau i dyfu ac i ehangu'r ddarpariaeth cyfoethogi'r Gymraeg ac ymdrechu i ddyblu'r lefelau ymgysylltu erbyn diwedd y degawd hwn.</p>

Drafft

Maes Deiliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<p>Deiliant 6 – Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)</p>	<p>Mae nifer y dysgwyr ar lefelau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu. Yn ogystal, nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu Cyfrwng Cymraeg ar gael yng Nghasnewydd, ond bwriedir agor darpariaeth yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli o fewn y 5 mlynedd nesaf.</p> <p>Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i ystyried trefniadau rhanbarthol, megis Protocol Symud a Reolir yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg, a chyfleoedd cydweithio i staff arbenigol sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Mae adnoddau ADY Cymraeg penodol wedi eu nodi a'u prynu ar gyfer pob clwstwr Cymraeg.</p>	<p>Mae ymrwymiad i agor Canolfan Adnoddau Dysgu Cynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Ar y cyd â hyn, bydd allgymorth a chymorth arbenigol yn cael eu datblygu i wella a mireinio'r darpariaeth gyffredinol a'r ddarpariaeth a dargedir.</p> <p>Er gwaethaf y prinder cenedlaethol o wasanaethau ADY arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg, y nod yw sicrhau cydweithio traws gonsortia i ddarparu Cymorth ADY.</p> <p>Bydd gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adnoddau ac asesiadau cenedlaethol ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgwyr ADY.</p>	<p>Bydd ail Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD) bwrpasol ar gael i ddysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd datblygu CAD cynradd yn effeithio ar y ddarpariaeth uwchradd, felly bydd angen ystyried darpariaeth ADY arbenigol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar gyfer disgyblion sy'n pontio o'r sector cynradd.</p> <p>Bydd y cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu asesiadau ac adnoddau dwyieithog cenedlaethol yn parhau dros oes y cynllun hwn.</p>

Drafft

Maes Deiliant	Y Sefyllfa Bresennol	Targed 5 mlynedd	Targed 10 mlynedd
<p>Deiliant 7 - Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Heb os, dyma'r maes canlyniad mwyaf heriol, ac mae cynllunio'r gweithlu yn faes penodol sy'n peri pryder. Mae'r Cyngor wrthi'n creu gweledigaeth ac edefyn rhwng ei amrywiol strategaethau Cymraeg a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion ar draws sawl maes sy'n gysylltiedig â Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd y Cyngor. Ffrwd sydd wedi'i chynnwys yn y strategaeth yw gweithio gyda chyflogwyr, partneriaid a rhanddeiliaid i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision economaidd siarad neu ddysgu Cymraeg, a sut y gall hyn helpu a chefnogi disgyblion, myfyrwyr ac unigolion i gael gwaith.</p>	<p>O fewn pum mlynedd cyntaf y cynllun hwn, ein nod yw sicrhau bod pob swydd yn ein hysgolion Cymraeg yn cael eu llenwi â staff o safon uchel sydd â chymwysterau priodol. I gefnogi hyn, byddwn yn sefydlu gweithgor i gynnal dadansoddiad o anghenion y gweithlu ar gyfer y model twf addysg cyfrwng Cymraeg a amlinellir yn y cynllun strategol 10 mlynedd. Mae'r Cyngor yn ymrwmo i nodi'r gweithlu y mae ei angen i ddarparu addysg Gymraeg dros oes y cynllun hwn;</p> <p>O fewn y cyfnod hwn, mae Coleg Gwent yn targedu cynnydd gan 50% yn nifer y staff academaidd sydd â sgiliau Cymraeg rhugl a'r rhai sydd â sgiliau Cymraeg lefel uwch.</p>	<p>Ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd hwn, ein nod yw sicrhau bod y ddarpariaeth ychwanegol a grëir fel rhan o'r targedau gofynnol yn cael ei staffio'n briodol, a bod y clwstwr Cymraeg yn parhau i ffynnu o dan ddatblygiad rhagorol y gweithlu a chynllunio olyniaeth sy'n briodol ar draws holl sectorau a phartneriaid y Gwasanaeth Addysg. Mae'r amserlin 10 mlynedd yn caniatáu amserlen i ddechrau gweld cyn-ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn dod yn ôl fel athrawon yn ysgolion Casnewydd.</p> <p>Nod Coleg Gwent yw sicrhau cynnydd gan 100% yn nifer y staff academaidd rhugl ac uwch Cymraeg eu hiaith, a bydd hyn yn galluogi'r coleg i gynnig modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym mhob maes blaenoriaeth cwricwlwm fel y'u pennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.</p>

Draft